

<b>Adroddiad i'r</b>	Cabinet
<b>Dyddiad yr adroddiad</b>	12 Ebrill 2022
<b>Aelod Arweiniol / Swyddog</b>	Y Cyng. Brian Jones: Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd / Tony Ward: Pennaeth Priffyrdd, Cyfleusterau a Gwasanaethau Amgylcheddol
<b>Awdur(on) yr adroddiad</b>	Peter Clayton, Rheolwr Prosiect a Tony Ward, Pennaeth Priffyrdd, Cyfleusterau a Gwasanaethau Amgylcheddol
<b>Teitl</b>	Cam 2 Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff, Colomendy, Dyfarnu Contract drwy Benderfyniad Dirprwyedig

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r broses a gymerwyd hyd yma o ran y tendr i ddarparu Cam 2 datblygiad Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff newydd Cyngor Sir Ddinbych sydd ei hangen i gefnogi'r newid arfaethedig i'r model Casglu Gwastraff.
- 1.2. Mae hefyd yn argymhell bod y Cabinet yn cytuno i ddyfarnu contract i'r cynigiwr llwyddiannus i ddarparu Cam 2 datblygiad Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff newydd Cyngor Sir Ddinbych drwy Benderfyniad Dirprwyedig yn absenoldeb y Cabinet ym mis Mai a rhan gyntaf mis Mehefin 2022 o leiaf. Mae hyn yn angenrheidiol i sicrhau bod y prosiect yn mynd yn ei flaen ac i osgoi oedi (a chostau pellach) gan gymryd fod cais y contractwr a ffefrir o fewn terfyn fforddiadwyedd y gwaith.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1. Mae angen penderfyniad gan y Cabinet i alluogi'r Cyngor ddyfarnu contract i'r cynigiwr llwyddiannus i ddarparu Cam 2 datblygiad Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff newydd Cyngor Sir Ddinbych drwy Benderfyniad Dirprwyedig wedi i'r broses dendro ddod i ben. Mae hyn oherwydd na fydd Cabinet ym mis Mai (pan fyddai angen penderfyniad gan y Cabinet fel arall) neu o leiaf am ran gyntaf mis Mehefin 2022.

Byddai oedi cyn dyfarnu'r contract yn arwain at oedi pellach i'r prosiect a byddai hefyd bron yn sicr yn arwain at gostau ychwanegol i'r cyngor.

### **3. Beth yw'r Argymhellion?**

- 3.1. Bod y Cabinet yn cymeradwyo dyfarnu'r Contract i'r contractwr a ffefrir drwy Benderfyniad Dirprwyedig gan y Prif Weithredwr (mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro) ar ddiwedd y broses dendro, gan gymryd fod cais y Contractwr o fewn terfyn fforddiadwyedd y gwaith. Disgwylir i'r Penderfyniad Dirprwyedig gael ei wneud ar 5 Mai 2022 neu wedi hynny.
- 3.2. Bod y Cabinet yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 1) fel rhan o'i ystyriaethau.
- 3.3. Bod y Penderfyniad Dirprwyedig yn cael ei roi ar waith ar unwaith oherwydd y pwysau o ran amser i fynd â'r prosiect yn ei flaen, a dyfarnu contract i ganiatáu i waith ddechrau ar Gam 2 ar y safle cyn gynted â phosibl i wneud y mwyaf o'r amodau adeiladu ffafriol dros yr haf a lliniaru'r risgiau a achosir gan ansefydlogrwydd parhaus y farchnad a phwysau o ran costau.

### **4. Manylion yr adroddiad**

- 4.1. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn dymuno penodi Contractwr i ddarparu Cam 2 datblygiad Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff newydd yng Ngholomendy, Dinbych. Mae'r gwaith hwn yn dilyn Cam 1, y Gwaith Hwyluso a ddarparwyd ar y cyd â 4 busnes ar Stad Ddiwydiannol Colomendy ac a gwblhawyd ym mis Mawrth 2022.
- 4.2. Daeth adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i gyhoeddi Gwahoddiad i Dendro ar gyfer Cam 2 gerbron y Cabinet ar 19 Hydref 2021 a chafodd ei gymeradwyo. Ers hynny, mae gwaith wedi bod ar y gweill i ddatblygu pecyn tendro Cam 2, wrth barhau i ddarparu'r tendr Cam 1 byw ar y safle ar y cyd â'r 4 busnes.
- 4.3. Cyhoeddwyd hysbysiad contract ar gyfer Cam 2 ar borth caffael GwerthwchiGymru ar 23 Mawrth 2022 gyda dyddiad cau o 4 Mai 2022.
- 4.4. Mae'r tendr wedi'i seilio ar bwysoliad o 60% Pris a 40% Ansawdd gydag amcangyfrif o werth cyn tendro o £5.25m.
- 4.5. Wedi i'r tendr gau, cynhelir ymarfer gwerthuso i benderfynu ar y Contractwr a ffefrir i ddarparu Cam 2. Er mwyn osgoi oedi pellach i raglen darparu'r Orsaf Trosglwyddo

Gwastraff newydd ac oherwydd absenoldeb Cabinet ym mis Mai a rhan gyntaf mis Mehefin 2022 o leiaf, y bwriad yw dyfarnu'r Contract drwy Benderfyniad Dirprwyedig gan gymryd fod cyfanswm y tendr a ffefrir o fewn y terfyn fforddiadwyedd o hyd at £5.487m.

- 4.6. Cynigir bod y Penderfyniad Dirprwyedig hwn yn cael ei roi ar waith ar unwaith oherwydd y pwysau o ran amser i fynd â'r prosiect yn ei flaen, a dyfarnu contract i ganiatáu i waith ddechrau ar y safle cyn gynted â phosibl i wneud y mwyaf o'r amodau adeiladu ffafriol dros yr haf a lliniaru'r risgiau a achosir gan ansefydlogrwydd parhaus y farchnad a phwysau o ran costau.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

- 5.1. Bydd y newidiadau a gynlluniwyd ar gyfer casglu gwastraff o aelwydydd yn cael effaith bositif ar y Flaenoriaeth Gorfforaethol, "Yr Amgylchedd: Deniadol ac wedi'i Ddiogelu, gan gefnogi lles a ffyniant economaidd". Bydd yn cynyddu nifer ac ansawdd yr ailgylchu a gesglir o aelwydydd, ac yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer ailgylchu dolen gaeedig. Bydd hefyd yn galluogi i ehangu busnesau lleol o bosib, gan arwain at gyfleoedd cyflogaeth a thwf economaidd.
- 5.2. Roedd manteision cymunedol yn gwestiwn prosiect penodol a ddefnyddiwyd yn y fethodoleg gwerthuso tendr. Cyn gynted ag y bydd contractwr wedi ei benodi, cynhelir cyfarfod â Rheolwr Manteision Cymunedol y Cyngor, Karen Bellis.
- 5.3. Drwy fabwysiadu technolegau yn yr Orsaf Trosglwyddo Gwastraff newydd arfaethedig (mwy o fanylion yn Adran 6), y nod yw lleihau effaith y safle i gefnogi'r nodau di-garbon net Corfforaethol ehangach erbyn 2030.

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

- 6.1. Amcangyfrif y gost cyn tendro yw £5.25m gyda chyllideb o hyd at £5.487m.
- 6.2. Y bwriad yw y bydd yr Orsaf Trosglwyddo Gwastraff newydd yn cynnwys technolegau i leihau ôl troed carbon drwy ddefnyddio paneli Ffotofoltäig, pypmiau gwres yr awyr, casglu dŵr glaw a gosod manau gwefru Cerbydau Trydan er mwyn gallu symud i fflyd o Gerbydau Trydan.

6.3. Mae'r cyllid ar gyfer yr elfen hon o'r prosiect yn rhan o becyn ariannu ehangach i gefnogi'r gwaith mwy cyffredinol o Ailfodelu Gwasanaethau Gwastraff, ac mae'r Orsaf Trosglwyddo Gwastraff newydd arfaethedig yn ffurfio elfen allweddol ohono - gweler Atodiad 2 am fwy o fanylion ar gostau a chyllid.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Gweler Atodiad 1 am wybodaeth bellach ar yr Asesiad o'r Effaith ar Les a gynhaliwyd ar gyfer yr holl Ailfodelu Gwasanaeth Gwastraff lle mae'r datblygiad ar gyfer Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff newydd yn elfen allweddol i gefnogi'r model ar gyfer gwasanaethau newydd arfaethedig. Mae canlyniad terfynol yr Asesiad o'r Effaith ar Les yn bositif.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Rhoddwyd cymeradwyaeth i gyhoeddi Gwahoddiad i Dendro ar gyfer Cam 2 gan y **Cabinet** ym mis Hydref 2021 - gweler Atodiad 3.

8.2. Mae **Gwasanaethau Cyfreithiol a Chaffael** wedi bod yn rhan o gynnal yr ymarfer tendro a drafftio'r dogfennau contract cysylltiedig a chafwyd cefnogaeth ychwanegol i ddrafftio'r Contract gan gwmni allanol, Hugh James drwy'r Gwasanaethau Cyfreithiol.

8.3. Mae **Grŵp Ardal Aelodau Dinbych** yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd a chynigion ar gyfer datblygu yn cynnwys Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff newydd arfaethedig Cyngor Sir Ddinbych drwy eitem sefydlog ar Agenda'r Grŵp.

8.4. Ymgynghorwyd â'r Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd a'r Aelod Arweiniol Cyllid a chawsant y wybodaeth ddiweddaraf drwy eu safle ar y **Bwrdd Prosiect**.

8.5. Cafodd yr egwyddor gyffredinol o ddatblygu Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff newydd i gefnogi'r newid cyffredinol i'r gwasanaeth gwastraff ei gymeradwyo'n wreiddiol yn y **Grŵp Gwella Gwasanaeth a'r Cabinet** ym mis Rhagfyr 2018 a chafodd diweddariadau pellach ar gynnydd eu cyflwyno yn **Sesiwn Frifio'r Cabinet** a'r **Pwyllgor Craffu Cymunedau** yn ystod 2019 a 2021. Hefyd, aeth y mater o brynu tir yng Ngholomendy, Dinbych a datblygiad yr Orsaf Trosglwyddo Gwastraff arfaethedig ar y tir hwnnw fel opsiwn a ffefrir gerbron y **Grŵp Rheoli Asedau** ym mis Mawrth 2019.

8.6. Ymgynghorwyd â'r **Prif Swyddog Ariannol** – gweler yr ymateb isod:

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Ariannol**

9.1. Mae'r ddirprwyaeth i ddyfarnu'r contract i ddarparu datblygiad Cam 2 yr Orsaf Trosglwyddo Gwastraff, Colomendy, yn rhan hanfodol o'r prosiect gwastraff yn gyffredinol. Mae'r argymhellion yn cael eu cefnogi felly, gan gymryd bod yr Achos Busnes diwygiedig ar gyfer y prosiect cyfan a'r argymhellion cysylltiedig sy'n ymwneud â dirprwyaeth (hefyd ar y rhaglen hon) yn cael eu cymeradwyo.

## **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1. Costau'r contract - Mae risgiau wedi cael eu nodi yn y dogfennau tendr, gyda phroses i'w diweddarau'n rheolaidd a nodwyd cyfrifoldeb dros y risg hefyd. Y prif gam y gellir ei gymryd i reoli'r costau yw dyfarnu'r contract cyn gynted â phosibl ar ôl y dyddiau cau sef 4 Mai 2022. Bydd unrhyw oedi wrth ddyfarnu'r contract yn arwain at oedi pellach cyn adeiladu'r Orsaf Trosglwyddo Gwastraff, ac oedi cyn rhoi'r newid ar waith i wasanaethau, a bydd y ddau yn costio arian ychwanegol i'r cyngor.

## **11. Pŵer i wneud y penderfyniad**

11.1. Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 Rhan II

11.2. Adran 111 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972

11.3. Adran 120 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972